## Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 08 Mehefin 2004 i'w hateb ar 22 Mehefin 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

### *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** Pa gynigion sydd gan y Prif Weinidog i sicrhau bod Uwch Swyddogion Awdurdodau Lleol yn dilyn gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001. (OAQ36194)

**2. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y gronfa o £100 miliwn i atal troseddu. (OAQ36190)

**3. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddweud beth yw ymdrechion diweddaraf y Llywodraeth i hyrwyddo Cymru dramor. (OAQ36189)

**4. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y ffordd y mae'r sector gwirfoddol yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. (OAQ36205)

**5. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar y cynnydd parthed sefydlu cynllun anifeiliaid trig. (OAQ36202) **W**

**6. Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau diweddar ynglyn â dyfodol cyllid strwythurol Ewrop i Gymru. (OAQ36197) **W**

**7. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw ei bolisi ar ddifa gwiwerod llwyd er mwyn helpu gwiwerod coch i oroesi. (OAQ36182)

**8. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y modd y mae addysg bellach yn cael ei rheoli yng Nghymru. (OAQ36201)

**9. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A all y Prif Weinidog wneud datganiad ar y Gronfa i Atal Troseddu. (OAQ36192)

**10. Brian Gibbons (Aberafan);** Pa rôl trawsbynciol sydd gan ein coetiroedd o ran hybu datblygu cynaliadwy yng Nghymru. (OAQ36203)

**11. Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);**A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ymestyn cyfleusterau i bobl anabl ledled Cymru. (OAQ36181)

**12. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y mae'r cynnydd ym mhrisiau tai yn effeithio ar bolisïau tai fforddiadwy ei lywodraeth. (OAQ36186)

**13. Catherine Thomas (Llanelli);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus i bobl hy^n yng Nghymru. (OAQ36208)

**14. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A yw'r Prif Weinidog wedi cael addewid gan San Steffan y bydd aelodau Ymddiriedolaeth Bensiwn ASW yn derbyn eu pensiwn llawn o dan y cynnig diweddar gan Lywodraeth San Steffan. (OAQ36206)

**15. Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei chynnig i fusnesau lleol yng Ngogledd Cymru. (OAQ36187)